# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 6 Tachwedd 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Is-swyddfeydd Post a Chyfleusterau Cysylltiedig yng Nghefn Gwlad Cymru

**C11 Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cynnal gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch colli is-swyddfeydd post a chyfleusterau cysylltiedig yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ13637)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Yr wyf yn cyfarfod â Paul Murphy, Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd i drafod ystod eang o faterion.

### Cais Dinas Diwylliant Ewrop 2008 Caerdydd

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar yr hyn y mae ef yn ei wneud, fel Prif Weinidog Cymru, i hyrwyddo delwedd Cymru ledled Ewrop trwy gefnogi cais Dinas Caerdydd i ddod yn ddinas diwylliant 2008? (OAQ13635) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Mae codi proffil Cymru yn un o flaenoriaethau allweddol y Cabinet. Mater i awdurdodau'r DU yw penderfynu pa ddinas a ddewisir i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn llwyr gefnogi cais Caerdydd ar gyfer 2008.

### 'Cynllun i Gymru 2001' (Gwella Ansawdd Bywyd yng Nghymoedd y De)

**C13 Geraint Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut y bydd y mesurau o fewn y 'Cynllun i Gymru 2001' yn gwella ansawdd bywyd yng Nghymoedd y De? (OAQ13646) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Mae 'Cynllun i Gymru 2001' yn ymrwymo i wella gwasanaethau cyhoeddus ac yn pennu cyfeiriad cliriach i'r economi, yr amgylchedd a'r gymdeithas, ac i Gymru gyfan. O ran Cymoedd y De yn arbennig:

- mae'r gronfa anghydraddoldebau iechyd yn cefnogi 20 prosiect i helpu i wella iechyd a'i gwneud yn haws i bobl gael gwasanaethau iechyd yng Nghymoedd y De;
- wrth weithredu adolygiad dyraniad adnoddau Townsend, sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd, disgwylir yn y pen draw i adnoddau iechyd gael eu hanelu'n fwy at Gymoedd y de a chymunedau eraill sy'n dioddef o afiechyd gwaeth na gweddill Cymru;
- bydd prosiect Continental Teves yn ymestyn ar ystad ddiwydiannol Waun-y-Pound, Glynebwy, gan greu 116 o swyddi newydd a diogelu 161;
- derbyniodd Desk-Link Office Furniture Limited ar ystad ddiwydiannol Tafarnaubach yn Nhredegar gymorth rhanbarthol dewisol o £1.2 miliwn, gan greu 75 o swyddi newydd yn y broses.

### 'Cynllun i Gymru 2001' (Darparu Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus)

**C14 Elin Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y ffyrdd y bydd y 'Cynllun i Gymru 2001' arfaethedig yn darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru? (OAQ13622)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyflwynwyd 'Cynllun i Gymru 2001' ar 25 Hydref. Mae'n disgrifio'n glir ein hymrwymiad i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus. 'Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun i'r GIG

ynghyd â'i Bartneriaid' ac 'Y Wlad sy'n Dysgu' yn manylu ar sut yr ydym yn bwriadu gwella ein hysgolion a'n hysbytai.

### Ymdrin ag Argyfyngau Sifil yng Ngogledd Cymru

**C15 Janet Ryder:** Sut mae Prif Weinidog Cymru yn cyd-drefnu datblygiad polisi yng ngogledd Cymru er mwyn sicrhau bod cynlluniau digonol wedi'u paratoi ar gyfer ymdrin ag argyfyngau sifil? (OAQ13627)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae grŵp cydlynu strategol yn cyfarfod yn rheolaidd dan gadeiryddiaeth prif gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i gydlynu datblygu polisïau ar draws pob asiantaeth sy'n ymwneud ag argyfyngau sifil. Mae swyddogion y Cynulliad yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Mae gan y grŵp gyfres o weithgorau rhyng-asiantaethol, sy'n ystyried amrywiaeth o agweddau i sicrhau bod cynlluniau digonol yn barod. Cynhaliwyd yr ymarfer rhyng-asiantaethol diweddaraf yn y Gogledd ar 1 Tachwedd. Yr oedd y Cynulliad yn cael ei gynrychioli yno.